Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Datgarboneiddio'r sector tai preifat / Decarbonising the private housing sector
DH2P_20
Ymateb gan Cwmpas

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Amdanom ni**

Asiantaeth ddatblygu yw Cwmpas sy’n gweithio i greu newid er gwell.

Rydym yn gwmni cydweithredol sy’n canolbwyntio ar greu economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal, lle mae pobl a’r blaned yn dod gyntaf. Nid yw’r system economaidd bresennol yn llwyddo i fynd i’r afael â’r heriau allweddol sy’n wynebu ein cymunedau heddiw, o’r newid yn yr hinsawdd i galedi economaidd. Does dim rhaid i bethau fod fel hyn.

Fe allai – ac fe ddylai – ein heconomi a’n cymdeithas weithio er budd pobl a’r blaned. Cenhadaeth Cwmpas, a sefydlwyd ym 1982 fel Canolfan Cydweithredol Cymru, yw newid y ffordd y mae ein heconomi a’n cymdeithas yn gweithio.

**Datgarboneiddio tai: datgarboneiddio'r sector tai preifat**

Yn yr ymateb hwn, hoffem ganolbwyntio ar fanteision sicrhau bod menter gymdeithasol yn chwarae rhan allweddol mewn ddatgarboneiddio’r sector tai preifat yng Nghymru. Mae mentrau cymdeithasol yn gweithredu ar egwyddorion y Llinell Driphlyg; pobl, planed, elw. Mae hyn yn sicrhau bod eu pwrpas cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd wrth wraidd eu gwaith. Mae gan lawer o mentrau cymdeithasol amcanion amgylcheddol, a mae nhw yn roi gweithio i wella'r ardal leol wrth galon eu nodau cymdeithasol. Mae hefyd yn werth nodi bod llawer o fentrau cymdeithasol wedi ymgorffori egwyddorion economi gylchol yn yr amcanion amgylcheddol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, gydag uchelgais i wneud hynny hyd yn oed yn gynt. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen buddsoddiadau penodol i ddatgarboneiddio’r seilwaith presennol yng Nghymru, mewn meysydd fel tai a thrafnidiaeth.

Dylai polisïau Llywodraeth Cymru sy’n ymwneud â datgarboneiddio hyrwyddo menter gymdeithasol fel y model busnes o ddewis i sefydliadau sy’n gweithio ac sydd am weithio yn y maes hwn. Mae cyfle hefyd i ail-adeiladu cymunedau ac economïau lleol, trwy gynyddu mentrau cymdeithasol a busnesau cymunedol a lleol gyda hyfforddiant a datblygu sgiliau mewn cymunedau lleol fel rhan o drawsnewidiad gwyrdd cyfiawn.

**Mwyhau rôl y sector menter gymdeithasol mewn datgarboneiddio: Gwerth Cymdeithasol**

Gall y Llywodraeth chwarae rhan allweddol wrth gefnogi datblygiad y sector hwn yng Nghymru drwy sicrhau bod arferion caffael ar gyfer datgarboneiddio tai cymdeithasol yn blaenoriaethu gwerth

cymdeithasol i'r un graddau â chost economaidd. Byddai hwyluso'r cyfleoedd i fentrau cymdeithasol gynyddu a chyflawni'r contractau hyn yn hybu eu gallu i chwarae rhan allweddol wrth ddatgarboneiddio'r sector tai preifat. Byddem hefyd yn croesawu archwiliad pellach o rôl y Llywodraeth o ran meithrin y farchnad i fanteisio ar y buddsoddiad sylweddol hwn. Amlygodd ein hadroddiad Mapio Mentrau Cymdeithasol 2020/21 bod llawer o fentrau cymdeithasol yn eisiau masnachu mwy â'r sector cyhoeddus ond nad oes ganddynt y wybodaeth, y gallu na'r sgiliau i wneud hynny.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld enghreifftiau ledled Cymru o fentrau cymdeithasol yn camu i fyny i ddarparu atebion arloesol i heriau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn ffyrdd cynaliadwy.

**Astudiaeth Achos**

Creu Menter yw enw menter gymdeithasol yng Nghonwy. Mae'n is-gwmni i Cartrefi Conwy, a dechreuodd fasnachu yn 2015 gan dyfu'n gyflym yn gontractwr cymdeithasol o ddewis yng Ngogledd Cymru. Mae'n adeiladu tai sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy ac mae'n dod o hyd i ffyrdd arloesol o leihau ei hôl-troed carbon, fel cael 80 y cant o'r pren o Gymru ac adeiladu ei fframiau ar y safle. Yn ogystal â'i chenhadaeth amgylcheddol, mae gan y fenter genhadaeth gymdeithasol i greu swyddi llawn amser sy'n talu'n dda yn y gymuned leol. Mae wedi sefydlu Academi Creu Dyfodol er mwyn helpu pobl leol i ddod o hyd i hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, a chyfleoedd cyflogaeth. Ym mis Tachwedd 2020, cafodd y fenter ei henwi yn y Cwmni sydd wedi Tyfu'n Fwyaf Cyflym yng Nghymru. Mae'r tîm yn enghraifft berffaith o sut gall menter gymdeithasol gyflawni ei thair uchelgais: llwyddiant busnes, cynaliadwyedd amgylcheddol, a helpu pobl.